Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# AGENDA

***G Ŵ Y S  Y  C Y N G O R***

***At holl aelodau'r cyngor***

***Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i***

***GYFARFOD Y CYNGOR***

***i'w gynnal am 2.00 pm***

***DYDD MERCHER, 4 MEDI 2019 Dydd Mercher, 4 Medi 2019***

***Yn***

***SIAMBR Y CYNGOR - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT***

*Bydd Caplan y Maer yn dweud gweddi cyn i'r cyfarfod ddechrau.*

**--- A G E N D A ---**

**RHAN A**

1. *Cyhoeddiadau'r Maer.*

2. *Datganiadau o fudd*

3. *Derbyn cofnodion cyfarfod blaenorol y cyngor a'u cadarnhau os ystyrir bod hyn yn addas:* (Tudalennau 5 - 10)

   Y Flwyddyn Ddinesig 2019/20

**RHAN B**

4. Newid dyddiad y Cyfarfod Blynyddol (Tudalennau 11 - 14)
   (Tudalennau 11 - 14)
   Atodir adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif

Swyddog Digidol

5. *Adroddiad Blynyddol Magu Plant Corfforaethol (Tudalennau 15 - 30)* (Tudalennau 15 - 30)
Atodir adroddiad y Cadeirydd.

6. *Datganiad gan Arweinydd y Cyngor ar yr Ymgynghoriad ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol*

7. *Datganiad gan Ddirprwy Arweinydd y cyngor ar yr Argyfwng o ran yr Hinsawdd*

**RHAN C**

8. *Derbyn y canlynol ac unrhyw gwestiynau a godir gan yr aelodau, neu unrhyw faterion sydd i'w codi gan Aelodau'r Cabinet:-*
(Tudalennau 31 - 60)

Cofnod o benderfyniadau gweithredol y Cabinet a Byrddau'r Cabinet.

**RHAN D**

9. Rhybudd o Gynnig dan Is-adran 10 o Ran 4 (Rheolau Gweithdrefnau) Cyfansoddiad y Cyngor, wedi'i gynnig gan Y Cyng. D Jones ac a eiliwyd gan Y Cyng. A.Llewelyn fel a ganlyn:

Mr Maer,
Fy ngwaith heddiw yw ceisio ymrwymiad llawn y cyngor i sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n byw ac yn gweithio yn ein bwrdeistref sirol neu sy'n ymweld â hi, wrth i ni ddechrau gwaith i ddiweddaru'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
Mae'n bwysig i mi ddechrau drwy ddweud bod gan y fwrdeistref sirol lawer i fod yn falch ohoni, a llawer i'w ddathlu.
Nododd ymchwil ddiweddar a gyflawnwyd i gyfeirio'n brand lle ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfeillgarwch pobl leol fel un o'n cryfderau unigryw. Ac mae ymrwymiad y cyngor i gydraddoldeb yn cael ei gydnabod mewn sawl ffordd:
Rydym newydd dderbyn gwobr arian gan Chwarae Teg am y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud, ynghyd â'r partneriaid yn yr undebau llafur, i hyrwyddo cydraddoldeb tâl rhwng y rhywiau.
Yn ddiweddarach y mis hwn yng nghyfarfod y Cyngor Staff byddwn yn lansio'n swyddogol ein hymrwymiad i gryfhau'r ffordd rydym yn

cefnogi gweithwyr y mae eu hiechyd meddwl yn wael drwy ymrwymo i'r rhaglen Time2Change.

I gydnabod yr anawsterau y mae pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael yn eu hwynebu yn eu gwaith beunyddiol, rydym yn gweithio gyda MIND ac UNSAIN i ddarparu hyfforddiant i'n gweithlu er mwyn sicrhau bod pawb yn hyderus i ymdrin â phobl sy'n profi iechyd meddwl gwael a gwneud addasiadau rhesymol fel bod gan bawb fynediad cyfartal at wasanaethau'r cyngor.

Rydym hefyd yn cryfhau'r gefnogaeth rydym yn ei darparu i'n cymuned BME leol i ddathlu a hyrwyddo amrywiaeth ac, ar 23 Medi, byddwn yn cynnal symposiwm tlodi yma yn Theatr y Dywysoges Frenhinol er mwyn mesur a phwyso'r caledi ariannol sy'n cael ei brofi ledled y fwrdeistref sirol a chytuno ar ba beth yn rhagor y gellir ei wneud i liniaru'r caledi ariannol hwnnw.

Dyma rai enghreifftiau'n unig o'r pethau ymarferol y byddwn yn eu gwneud i gyflawni'n dyletswyddau cydraddoldeb. Rwy'n siŵr y bydd gennych eich enghreifftiau eich hunain o feysydd lle mae gwaith y cyngor yn gwneud camau breision i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o bob math.

Ond Mr Maer, er fyd mod wedi dechrau drwy ganolbwyntio ar y cadarnhaol, rwy'n siŵr hefyd y bydd y cyngor yn ymuno â mi i gondemnio'r digwyddiadau hiliol diweddar rydym wedi'u gweld yn ein bwrdeistref sirol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn gyrwyr tacsi o dreftadaeth Bacistanaidd; yn fwyaf diweddar, cafwyd adroddiadau am swastica'n cael ei arddangos ar gyfeiriad yng Nghastell-nedd; ac rydym hefyd wedi gweld graffiti'r asgell dde eithafol mewn cymunedau. Nid oes unrhyw le am y fath ymddygiad na'r syniadau sydd y tu ôl iddo.

Rwy'n galw ar yr holl gynghorwyr a'n cymunedau ehangach i weithio gyda'i gilydd i wneud Castell-nedd Port Talbot yn fan lle gall pawb gyd-dynnu a lle ni oddefir unrhyw ffurf ar wahaniaethau.

Mr Maer, mae adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor yn gyfle gwych i ni ymrwymo o'r newydd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y rheini a chanddynt nodwedd warchodedig a'r rheini hebddynt; meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu.

Y cynnig gerbron y cyngor yw i bob aelod ymwneud yn llawn â'r broses o adnewyddu a chryfhau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan yn y broses fel y gallwn gyda'n gilydd adeiladu Castell-nedd Port Talbot lle mae gan bawb gyfle cyfartal i fwynhau bywyd da.

10. *Derbyn unrhyw gwestiynau gan aelodau, gyda hysbysiad, dan Reol 9.2 Rheolau Gweithdrefnau'r cyngor.*

11. *Eitemau brys*
Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ôl disgresiwn y Maer yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.



***<u>Prif Weithredwr</u>***

***CANOLFAN DDINESIG,***
***PORT TALBOT***

**_Dydd Iau, 29 Awst 2019_**